


# Ymddygiad Dysgwyr mewn Colegau Addysg Bellach

## Deall, Cefnogi a Hyrwyddo Ymddygiad Cadarnhaol

Mai 2025

**Diben Estyn yw arolygu ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu:**

- ysgolion a lleoliadau meithrin a gynhelir gan, neu sy'n cael arian gan awdurdodau lleol
- ysgolion cynradd
- ysgolion uwchradd
- ysgolion pob oed
- ysgolion arbennig a gynhelir
- unedau cyfeirio disgyblion
- ysgolion annibynnol
- addysg bellach
- colegau arbenigol annibynnol
- dysgu oedolion yn y gymuned
- gwasanaethau addysg llywodraeth leol
- trefniadau trochi yn y Gymraeg mewn awdurdodau lleol
- gwasanaethau gwaith ieuenctid
- addysg gychwynnol athrawon
- Cymraeg i oedolion
- prentisiaethau
- dysgu yn y sector cyfiawnder

**Mae Estyn hefyd:**

- yn adrodd i Senedd Cymru ac yn rhoi cyngor ar ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru i Lywodraeth Cymru ac eraill
- yn cyhoeddi arfer dda yn seiliedig ar dystiolaeth arolygu

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW   neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2025: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl y ddogfen benodol/cyhoeddiad penodol.**

## Cynnwys Tudalen


**Crynodeb gweithredol** 1

**Cyflwyniad** 3

**Cefndir** 4

Ymddygiad dysgwyr ac effaith hirbarhaol pandemig COVID-19 4

Deall y dylanwadau ar ymddygiad dysgwyr 5

Strategaethau effeithiol ar gyfer rheoli ymddygiad 5

Rôl dangosfyrddau data 6

Effaith ymddygiad dysgwyr ar les staff 7

**Argymhellion** 8

**Trosolwg o ymddygiadau dysgwyr** 9

Ymddygiadau cadarnhaol 9

Ymddygiadau negyddol 10

Amrywiadau ar draws rhaglenni colegau 12

Effaith y pandemig 12

Ymddygiad mewn lleoliadau penodol 12

Mynd i'r afael â thueddiadau sy'n dod i'r amlwg 14

**Ffactorau sy'n dylanwadu ar ymddygiad dysgwyr** 15

Ffactorau sy'n dylanwadu 15

Perthnasoedd â staff 16

Perthnasoedd â chyfoedion 16

Patrymau mewn grwpiau dysgwyr 16

Ystyriaethau ar gyfer dysgwyr ag ADY 17

Rôl y cyfryngau cymdeithasol 18

**Ymateb i ymddygiadau negyddol** 20

Cofnodi ac olrhain ymddygiad 20

Categoreiddio ymddygiadau 20

Sut caiff gwybodaeth am faterion ymddygiad ei defnyddio 20

Ymagweddau at reoli ymddygiad 21

Penderfyniadau am ataliadau a gwaharddiadau 22

**Hyrwyddo ymddygiadau cadarnhaol** 24

Gosod disgwyliadau a sicrhau cysondeb 24

Gosod yr ethos a'r diwylliant ........................................................................................ 25
Ffocws ar ymddygiad mewn rhaglenni dysgwyr ............................................................ 26
Ymagweddau ar gyfer grwpiau ac unigolion penodol .................................................... 27
**Cymorth ac arweiniad ........................................................................................ 28**
Cymorth ar gyfer dysgwyr ................................................................................................ 28
Cymorth ar gyfer staff ...................................................................................................... 29
Cymorth gan Lywodraeth Cymru a Medr ......................................................................... 32
**Dulliau a sail y dystiolaeth ............................................................................ 33**
**Geirfa ..................................................................................................................... 34**
Niferoedd – symiau a chyfrannau ..................................................................................... 34
**Cyfeiriadau ........................................................................................................... 35**

# Crynodeb gweithredol

Mae'r adroddiad hwn yn archwilio ymddygiad dysgwyr mewn colegau addysg bellach ledled Cymru. Mae'n canolbwyntio ar y ffactorau sy'n dylanwadu ar ymddygiadau cadarnhaol a negyddol, yn ogystal â'r amrywiadau mewn ymddygiad ar draws gwahanol grwpiau dysgwyr a rhaglenni dysgu. Mae'r adroddiad yn ystyried sut mae colegau'n hyrwyddo ymddygiadau cadarnhaol ac yn rheoli ymddygiadau negyddol, ochr yn ochr â'r cymorth a'r arweiniad sydd ar gael i ddysgwyr a  staff, fel ei gilydd. Mae'n amlygu heriau cyfredol fel effaith barhaus pandemig COVID-19, ynghyd â'r cynnydd mewn camddefnyddio cyfryngau cymdeithasol a fepio. Rydym yn ystyried y ffactorau amgylcheddol a'r arferion sefydliadol sy'n dylanwadu ar yr ymddygiadau hyn. Mae ein canfyddiadau wedi'u seilio ar ymweliadau â saith coleg, arolygon cenedlaethol o staff a dysgwyr, ac ymgynghoriadau â rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys cynrychiolwyr undebau. Mae'r adroddiad yn cynnwys sawl ciplun arfer effeithiol neu ddiddorol yn seiliedig ar ein hymweliadau.

Yn ystod ein hymweliadau, ac o'r arolygon, nodom fod llawer o batrymau a heriau mynych mewn colegau addysg bellach. Mae llawer o ddysgwyr yn dangos ymddygiadau cadarnhaol, gan gynnwys rhyngweithio parchus â staff a chyfoedion, ymgysylltiad gweithredol mewn gwersi, ac ymrwymiad i gynnal campysau glân a threfnus. Cefnogir y deilliannau hyn gan amgylchedd sy'n meithrin annibyniaeth ac yn mabwysiadu dull addysgu sy'n canolbwyntio ar oedolion, sy'n chwarae rôl hanfodol mewn ffurfio ymddygiad mor adeiladol. Fodd bynnag, mae ymddygiadau negyddol yn amlwg, hefyd. Mae cyrraedd yn hwyr, absenoldeb, defnydd amhriodol o gyfryngau cymdeithasol, a fepio yn faterion yr adroddir amdanynt yn aml. Mae ymddygiadau mwy pryderus, er eu bod yn llai aml, yn cynnwys achosion o aflonyddu rhywiol, camddefnyddio sylweddau, a thrais ymhlith cyfoedion. Mae staff yn nodi bod digwyddiadau difrifol yn aml yn codi yn sgil pwysau allanol neu heriau personol heb eu datrys sy'n effeithio ar ddysgwyr.

Mae effeithiau parhaol y pandemig yn parhau i ffurfio ymddygiad dysgwyr. Mae llawer o bobl ifanc yn arddangos oedi datblygiadol, yn enwedig mewn medrau cymdeithasol a gwydnwch. Er bod effeithiau uniongyrchol y pandemig wedi lleihau yn y flwyddyn ddiwethaf, mae'r heriau sy'n weddill yn amlwg yn ymgysylltiad dysgwyr a'u gallu i ymdopi â phwysau academaidd.

Mae patrymau ymddygiadol yn amrywio ar draws gwahanol ddemograffeg dysgwyr a rhaglenni colegau. Mae dysgwyr iau, gan gynnwys y rhai sy'n dilyn rhaglenni 14-16, yn ogystal â rhai sydd wedi gadael yr ysgol yn ddiweddar, a'r rhai sydd wedi cofrestru mewn cyrsiau lefel is, yn aml yn dangos tarfu ymddygiadol mwy mynych. Mae dysgwyr niwrowahanol yn wynebu heriau unigryw, fel anawsterau â rheoleiddio emosiynol a rhyngweithio â chyfoedion. Mae dysgwyr o grwpiau ymylol, gan gynnwys myfyrwyr LHDTC+, yn anghyfartal o agored i fwlio ac aflonyddu, gan fod eu hunaniaethau weithiau'n cael eu dirnad yn negyddol gan gyfoedion. Mae dysgwyr gwrywaidd, yn enwedig y rhai ar gyrsiau masnach alwedigaethol fel adeiladu, yn fwy tebygol o ddangos ymddygiadau negyddol. Mae'r rhain yn cynnwys defnyddio iaith amhriodol tuag at

ddysgwyr benywaidd, sy’n aml yn cael ei yrru gan ymdrech i ffitio i mewn yn yr amgylcheddau gwrywaidd, yn bennaf.

Yn gyffredinol, mae colegau’n darparu cyfleoedd dysgu proffesiynol mewn rheoli ymddygiad ac arferion sy’n ystyriol o drawma, gan gynnig strategaethau i staff gynorthwyo dysgwyr â heriau ymddygiadol. Fodd bynnag, dywed rhai staff eu bod yn teimlo wedi eu llethu wrth ddelio â’r materion hyn yn rheolaidd, sy’n gallu effeithio ar eu gallu i reoli ymddygiad yn effeithiol.

Mae colegau mewn cyfnodau amrywiol o ran ymgorffori arferion rheoli ymddygiad. Mae rhai sefydliadau wedi sefydlu systemau effeithiol gyda fframweithiau clir i hyrwyddo ymddygiad cadarnhaol a mynd i’r afael â heriau, tra bod sefydliadau eraill megis dechrau datblygu ac yn wynebu materion â chysondeb a dyrannu adnoddau.

Caiff sefydlogrwydd a chynaliadwyedd arferion rheoli ymddygiad eu cymhlethu ymhellach gan heriau cyllid. Yn aml, mae colegau yn dibynnu ar ffrydiau cyllido tymor byr, sy’n rhwystro’u gallu i roi strwythurau cymorth tymor hir ar waith neu gadw staff medrus. Mae’r ansicrwydd ariannol hwn yn tanseilio ymdrechion i sefydlu ymagwedd gyson a chynaledig at reoli ymddygiad dysgwyr, gyda goblygiadau i effeithiolrwydd ymyriadau a lles staff, fel ei gilydd.

# Cyflwyniad

Paratowyd yr adroddiad hwn i ymateb i gais gan Lywodraeth Cymru, fel yr amlinellwyd yn Llythyr cylch gwaith blynyddol y Gweinidog at Estyn ar gyfer 2024-2025. Mae'n canolbwyntio ar ymddygiad dysgwyr mewn colegau addysg bellach a bydd yn cael ei gyflwyno ochr yn ochr ag adroddiad thematig Estyn, sef Meithrin parch ar y ddwy ochr – hyrwyddo ymddygiadau cadarnhaol mewn ysgolion uwchradd. Y nod yw darparu mewnwelediadau ar natur ymddygiad dysgwyr mewn colegau a chofnodi arfer effeithiol.

Mae'r adolygiad yn archwilio pum maes allweddol yn gysylltiedig ag ymddygiad dysgwyr, gan gynnwys:

- **Trosolwg o ymddygiadau dysgwyr:** Mathau o ymddygiad dysgwyr mewn lleoliadau amrywiol a sut mae'r rhain wedi esblygu, yn enwedig ar ôl y pandemig
- **Ffactorau sy'n dylanwadu ar ymddygiad dysgwyr**: Ffactorau fel perthnasoedd, cyfryngau cymdeithasol, a grwpiau dysgwyr penodol yn effeithio ar ymddygiad
- **Ymateb i ymddygiadau negyddol:** Sut mae colegau yn olrhain, yn categoreiddio ac yn rheoli ymddygiadau, gan gynnwys gweithdrefnau disgyblu, cymorth ar gyfer yr holl ddysgwyr dan sylw, a systemau cymorth staff; bydd hefyd yn ystyried sut caiff y data a'r wybodaeth eu defnyddio
- **Hyrwyddo ymddygiadau cadarnhaol**: Sut mae colegau'n gosod disgwyliadau, yn targedu grwpiau penodol, ac yn mesur effeithiolrwydd strategaethau ymddygiad cadarnhaol
- **Cymorth ac arweiniad:** Cymorth ar gyfer dysgwyr a staff, a sut mae colegau'n cydweithio â chyrff allanol ac yn defnyddio arweiniad perthnasol

I lywio'r adroddiad hwn, casglom dystiolaeth o amrywiaeth o weithgareddau, gan gynnwys:

- **Arolygon cenedlaethol**: Cynhaliom ddau arolwg — un yn targedu staff coleg ar bob lefel, a'r llall wedi'i anelu at ddysgwyr.
- **Ymweliadau â cholegau**: Ymwelom â saith coleg ledled Cymru, gan sicrhau cyfuniad o leoliadau (gogledd, gorllewin, de, campysau gwledig ac yng nghanol dinas). Yn ystod yr ymweliadau hyn, a gynhaliwyd yn nhymor yr hydref 2024, buom yn ymgysylltu â staff cymorth cwricwlwm a busnes allweddol ar lefelau strategol a gweithredol. Buom hefyd yn cyfweld â dysgwyr ar draws gwahanol grwpiau oedran, lefelau rhaglen, a'r rhai sy'n cynrychioli grwpiau â nodweddion gwarchodedig, fel LHDTC+. Cynhaliom deithiau dysgu a buom yn adolygu adnoddau a dogfennau perthnasol i gael dealltwriaeth ehangach o ymddygiadau dysgwyr mewn coleg.
- **Cyswllt ag unedau:** Cyfarfuom â grŵp o gynrychiolwyr undebau coleg i drafod effaith ymddygiad dysgwyr ar les a beichiau gwaith staff.

Mae'r adroddiad hwn wedi'i fwriadu ar gyfer Llywodraeth Cymru, Medr, staff colegau addysg bellach, a sefydliadau partner allweddol sy'n gweithio gyda dysgwyr mewn lleoliadau addysg bellach, neu'n eu cefnogi.

# Cefndir

Ar lefel polisi yng Nghymru, bu adolygiad neu arweiniad ffurfiol cyfyngedig ar ymddygiad dysgwyr yn benodol o fewn colegau addysg bellach (AB). Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru wedi cydnabod pwysigrwydd mynd i'r afael â'r maes hwn, gan adeiladu ar fewnwelediadau o adolygiadau thematig blaenorol. Yn benodol, archwiliodd adroddiad Estyn yn 2022, Dydyn ni ddim yn dweud wrth ein hathrawon, brofiadau o aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion ymhlith disgyblion ysgolion uwchradd yng Nghymru, gan amlygu mynychter y materion hyn a'u heffaith ar les dysgwyr. Dilynwyd hyn gan yr adroddiad yn 2023, Aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion ymhlith dysgwyr 16 i 18 oed mewn addysg bellachhttps://estyn.gov.wales/system/files/2024-02/Peer-on-peer sexual harassment among 16 to 18-year-old learners in further education colleges across Wales.pdf, a ymestynnodd y ffocws hwn i golegau a chynnig dealltwriaeth ddyfnach o ymddygiad cyffredinol o fewn y lleoliadau hyn.

Rhoddodd adroddiad 2023 fewnwelediadau pwysig i'r heriau ymddygiadol sy'n wynebu colegau addysg bellach, gan bwysleisio'r angen am ddiwylliant diogelu cryf sy'n meithrin parch, perthnasoedd iach, a disgwyliadau ymddygiadol cyson. Llywiodd yr adolygiadau thematig hyn gyfeiriad polisi Llywodraeth Cymru, gan arwain at gais clir am gyngor ar ymddygiad dysgwyr mewn colegau addysg bellach i gefnogi datblygiad argymhellion yn seiliedig ar dystiolaeth. Mae'r adroddiad hwn yn ceisio ymateb i'r llywio hwnnw, gan sicrhau bod colegau'n cael yr arweiniad angenrheidiol i hyrwyddo ymddygiad cadarnhaol yn effeithiol.

I adeiladu ar y mewnwelediadau o'r adolygiadau hyn, archwiliom erthyglau ac ymchwil yn canolbwyntio ar ymddygiad dysgwyr mewn colegau addysg bellach dros y pum mlynedd diwethaf. Ymgorfforodd y dadansoddiad hwn ystod eang o safbwyntiau, gan gynnwys y tueddiadau ymddygiadol a welwyd ar ôl y pandemig a strategaethau effeithiol ar gyfer meithrin ymgysylltiad cadarnhaol. Trwy atgyfnerthu'r canfyddiadau hyn ochr yn ochr â'r adolygiadau thematig, mae'r adroddiad hwn yn cynnig safbwynt gwybodus ar y ffactorau sy'n dylanwadu ar ymddygiad dysgwyr, yr heriau sy'n wynebu colegau addysg bellach, a'r arferion sydd wedi bod yn llwyddiannus wrth fynd i'r afael â'r materion hyn.

### Ymddygiad dysgwyr ac effaith hirbarhaol pandemig COVID-19

Cyhoeddodd FE Week erthygl dan y teitl What's behind the rise in bad student behaviour in colleges? (FE Week, 2024). Yn yr erthygl hon, mae'r awdur Jessica Hill yn disgrifio'r modd y mae colegau addysg bellach yn wynebu lefelau cynyddol o ymddygiad aflonyddgar, sy'n awgrymu y gallai'r duedd hon gael ei hetifeddu o ysgolion. Mae'r erthygl yn amlygu ystod o ymddygiadau amhriodol, gan gynnwys seiberfwlio, fepio, pornograffi dial, a chaethiwed i ffonau clyfar. Mae Hill yn nodi:

> Mae staff colegau bellach yn delio â mathau o ymddygiad gwrthgymdeithasol doeddech chi bron byth yn clywed amdanynt ddegawd yn unig yn ôl (Hill, 2024)

Er bod effeithiau uniongyrchol COVID-19 wedi lleihau, mae effaith y pandemig wedi golygu bod nifer sylweddol o bobl ifanc wedi ymddieithrio a oedd naill ai'n fynychwyr afreolaidd neu roeddent wedi cael eu gwahardd o'r ysgol erbyn iddynt gyrraedd eu cwrs TGAU. Canfu arolwg a gynhaliwyd ar gyfer FE Week gan y Gymdeithas Genedlaethol ar gyfer Rheolwyr Gwasanaethau Myfyrwyr fod dros dri chwarter (77%) o staff cymorth myfyrwyr colegau yn credu bod myfyrwyr wedi profi mwy o anfodlonrwydd â chymdeithas yn 2023, o gymharu â blynyddoedd blaenorol. Yn ychwanegol, mae 71% o ymatebwyr yn meddwl bod yr anfodlonrwydd hwn wedi arwain at gynnydd mewn ymddygiad heriol ymhlith myfyrwyr (Hill, 2024).

### Deall y dylanwadau ar ymddygiad dysgwyr

Atgyfnerthir y farn hon gan ddogfen Survey of safeguarding staff in post-16 providers in England: March 2021 The Education and Training Foundation, sy'n datgan:

> Mae gan ddysgwyr ôl-16 ystod o bryderon ynghylch diogelu, a'r rhai a grybwyllwyd fwyaf oedd iechyd, diogelwch a lles, iechyd meddwl, bwlio neu aflonyddu, hunanesgeuluso, ymddygiadau personol peryglus a gwahaniaethu. Mae mynychter cynyddol o bryderon ynghylch iechyd, diogelwch a lles, achosion o gam-drin seiber a niwed ar-lein, yn ogystal â thrais mewn perthynas, a thrais domestig, a allai fod yn rhyng-gysylltiedig ac yn gysylltiedig â phandemig Covid-19 a chyfnodau clo dilynol. (The Education and Training Foundation, 2022, tud. 15).

Er bod effaith COVID-19 yn aml yn cael ei dyfynnu'n rheswm dros ymddygiad gwael, mae ffactorau eraill yn cyfrannu, hefyd. Mae dogfen Factors influencing behaviour gan New South Wales Department of Education yn amlygu rolau teulu, cyfoedion, a'r gymuned ehangach, yn ogystal â nodweddion personol fel oedran, rhywedd, personoliaeth, anian, ac iechyd meddwl a chorfforol, fel ei gilydd (New South Wales Department of Education, n.d.)

> Gall ffactorau risg, fel anfantais economaidd, gynyddu'r tebygolrwydd y bydd problem yn datblygu ac yn parhau. I'r gwrthwyneb, gall ffactorau amddiffynnol, fel teulu a chymuned gefnogol, helpu lleihau effaith ffactorau risg i'r eithaf (New South Wales Department of Education, n.d.)

### Strategaethau effeithiol ar gyfer rheoli ymddygiad

Yn y cyd-destun hwn, mae canllaw UNSAIN ynghylch Managing difficult behaviour in colleges yn cydnabod pwysigrwydd cydweithio rhwng staff i greu amgylchedd cefnogol i ddysgwyr. Mae'n amlygu arwyddocâd ymgysylltu cadarnhaol a meithrin ymddiriedaeth rhwng staff a dysgwyr trwy gynhesrwydd a chyfathrebu clir. Ymhellach, mae'n pwysleisio bod angen i staff aros yn bwyllog ond eto'n gadarn, gan sicrhau cysondeb o ran y canlyniadau ar gyfer ymddygiad gwael.

> Mae dull cyson yn hanfodol mewn sefydliad; er y gallai ymddangos yn demtasiwn torri'r polisi pan mae'n ymddangos yn fwy defnyddiol gwneud hynny, mae'r strategaeth hon yn tanseilio dull y sefydliad yn y pen draw trwy ei wneud yn gyson o safbwynt y myfyriwr (UNSAIN, n.d., tud. 8)

Caiff y safbwyntiau yng nghanllaw UNSAIN eu hadleisio yn erthygl Errol Ince, Behaviour management requires a united staff front (2021), a gyhoeddwyd yn FE Week. Mae Ince yn trafod rôl hanfodol meithrin perthnasoedd i feithrin cysylltiadau dilys rhwng staff a dysgwyr, sy'n gallu arwain at ymgysylltu estynedig ac ymddygiad gwell.

> Sefydlu perthnasoedd dilys gyda myfyrwyr yw'r offeryn mwyaf effeithiol o bell ffordd yn y blwch offer rheoli ymddygiad. Bydd gallu unigolyn i ffurfio perthynas â phobl eraill yn cael effaith gadarnhaol arnynt ym mhob sefyllfa (Ince, 2021)

Yn yr un modd â chanllaw UNSAIN, mae Ince yn amlygu pwysigrwydd gosod disgwyliadau cyson a rôl hanfodol mynnu rheolau i ddarparu eglurder. Yn ychwanegol, mae'r erthygl yn pwysleisio'r angen am ymatebion pwyllog, hyd yn oed mewn sefyllfaoedd heriol, gan fod y dull hwn yn helpu lleddfu gwrthdaro a chynnal amgylchedd cadarnhaol.

Mae canllaw The Education and Training Foundation, Understanding and promoting positive behaviour in the FE sector yn amlinellu strategaethau allweddol ar gyfer rheoli ymddygiad yn effeithiol. Yn ogystal â strategaethau a grybwyllwyd yn flaenorol, mae'n pwysleisio arwyddocâd meithrin diwylliant croesawgar, sicrhau cyfnodau pontio esmwyth, a staff yn modelu ymddygiadau dymunol. Mae hefyd yn amlygu pwysigrwydd gwneud i ddysgwyr deimlo'u bod yn cael eu gwerthfawrogi, atgyfnerthu arferion, a defnyddio ymyriadau cam wrth gam, lle bo'n briodol. Mae'r canllaw yn tanlinellu'r angen am ymagwedd sefydliad cyfan at reoli ymddygiad, ac mae gan arweinyddiaeth rôl allweddol mewn gosod disgwyliadau clir a chefnogi staff trwy hyfforddiant, nodi pwysigrwydd meithrin perthnasoedd ymddiriedus trwy empathi, gwrando gweithredol a chymhwyso rheolau cyson. Mae'r canllaw hefyd yn amlygu sut mae cymorth personoledig yn hyrwyddo cynwysoldeb, ochr yn ochr ag arferion adferol sy'n helpu datrys gwrthdaro yn adeiladol, lleihau gwaharddiadau a meithrin amgylchedd dysgu cefnogol. Mae'r canllaw yn cynnwys ystod o restrau gwirio a sbardunau defnyddiol i gynorthwyo colegau â deall a hyrwyddo ymddygiad cadarnhaol.

### Rôl dangosfyrddau data

Er bod llawer o'r ymchwil yn y maes hwn yn ddiweddar, mae astudiaethau cynharach yn darparu mewnwelediadau gwerthfawr, hefyd. Er enghraifft, nododd papur ymchwil Staff and Educational Development research paper on Student Behaviour in Higher Education (Janes et al) 2015, rôl bwysig systemau o'r fath, fel dangosfyrddau myfyrwyr, mewn hyrwyddo ymddygiad cadarnhaol trwy ddarparu data amser real ar ymgysylltu. Mae hyn yn cynnwys presenoldeb, lefel cyfranogiad mewn gwersi, a chwblhau gwaith cwrs, gan alluogi myfyrwyr i fyfyrio ar eu perfformiad a gosod disgwyliadau clir ar gyfer eu gweithredoedd. Mae'r adroddiad yn disgrifio sut mae'r dangosfwrdd yn meithrin dylanwad cyfoedion, wrth i fyfyrwyr gymharu eu graddau ymgysylltu â chyd-fyfyrwyr, gan eu cymell i gymryd rhan yn fwy gweithredol. Yn ychwanegol, mae'n hwyluso cyfathrebu cynnar rhwng tiwtoriaid a myfyrwyr, gan helpu nodi a mynd i'r afael â materion posibl cyn iddynt ddwysáu.

### Effaith ymddygiad dysgwyr ar les staff

Ym mis Hydref 2023, cyhoeddodd y British Educational Research Journal bapur, The impact of student conduct problems on teacher well-being following the onset of the Covid-19 pandemic (Oxley, Asbury, a Kim, 2023) sy'n disgrifio'r cysylltiad uniongyrchol rhwng ymddygiad gwael dysgwyr a'r effaith negyddol ar les athrawon. Mae'r papur yn datgan:

> Mae problemau ymddygiad myfyrwyr (sy'n aml yn cael eu labelu fel camymddygiad myfyrwyr) yn un o'r ffactorau allweddol sy'n gysylltiedig â phrofiadau athrawon o orweithio (Aloe et al., 2014; McCormick a Barnett, 2011) a throsiant ymhlith athrawon (Harmsen et al., 2018; Ingersoll, 2003) (Oxley, Asbury, a Kim, 2023, tud. 201)

Caiff y farn hon ei hadleisio yn adroddiad Ofsted yn 2019, sef Teacher well-being at work in schools and further education providers, sy'n dweud bod ymddygiad gwael yn ffactor briodoledig mewn lles galwedigaethol isel.

# Argymhellion

**Dylai colegau addysg bellach:**

A1 Gydweithio i sicrhau bod y rhai sydd â dulliau rheoli ymddygiad llai datblygedig yn gallu dysgu gan y rhai sydd â systemau a phrosesau mwy sefydledig, gan eu galluogi i wella a mireinio'u harferion eu hunain

A2 Sicrhau bod arweiniad clir ar gael i ddysgwyr ar ddefnydd cyfrifol o gyfryngau cymdeithasol a rhoi strategaethau targedig ar waith i reoli camddefnyddio cyfryngau cymdeithasol trwy addysgu a dysgu, a phrosesau rheoli ymddygiad

A3 Nodi staff a allai fod yn profi straen cynyddol a sefydlu systemau cymorth ychwanegol, i fynd i'r afael â'u lles, yn enwedig ar gyfer y rhai sy'n nodweddiadol yn gweithio gyda dysgwyr mwy aflonyddgar

A4 Cynyddu ymwybyddiaeth ymhlith dysgwyr a staff am argaeledd timau a gwasanaethau cymorth ymddygiad arbenigol, gan sicrhau sianelau cyfathrebu clir a chyfeirio gweladwy ar draws amgylchedd y coleg

A5 Datblygu cymorth teilwredig a chynhwysol ymhellach ar gyfer dysgwyr sy'n teimlo'n fwy bregus o ganlyniad i'w nodweddion gwarchodedig, gan sicrhau bod systemau cymorth ymddygiadol yn diwallu eu hanghenion unigryw

**Dylai Llywodraeth Cymru:**

A6 Arwain ar ddatblygu strategaeth genedlaethol unedig i fynd i'r afael â fepio mewn lleoliadau addysgol, gan gydweithio â cholegau i weithredu polisïau clir, gorfodaeth gyson, ac ymgyrchoedd addysg ar risgiau iechyd

**Dylai Medr:**

A7 Ystyried sut gall methodolegau cyllido AB alluogi cyllid hirdymor ar gyfer colegau AB i gynnal systemau rheoli ymddygiad effeithiol a chynorthwyo i gadw staff medrus

# Trosolwg o ymddygiadau dysgwyr


## Ymddygiadau cadarnhaol

Roedd llawer o ddysgwyr ar draws y colegau yr ymwelom â nhw yn dangos ymddygiadau cadarnhaol, wedi eu dylanwadu'n gryf gan ymagwedd gefnogol staff, wedi'i gogwyddo at oedolion. Roedd y rhain yn cynnwys:

- **Presenoldeb a phrydlondeb rheolaidd:** Dangos ymrwymiad i gyrsiau a ddewiswyd
- **Rhyngweithio parchus â staff a chyfoedion:** Meithrin ymdeimlad o gymuned
- **Cyfranogiad gweithredol mewn dysgu:** Adlewyrchir hyn mewn lefelau cryf o ymgysylltu yn ystod gwersi
- **Gofodau a gynhelir yn dda:** Ychydig iawn o sbwriel a dim graffiti gweladwy, gan gyfrannu at gampysau glân a threfnus

Roedd dysgwyr yn aml yn amlygu bod natur hamddenol ond strwythuredig y colegau yn wahaniaeth allweddol o gymharu â'r ysgol. Roeddent yn gwerthfawrogi'r annibyniaeth i reoli eu hamserlenni eu hunain ac yn gwerthfawrogi'r diben ar y cyd â chyfoedion sy'n dilyn diddordebau tebyg. Roedd yr amgylchedd hwn yn helpu meithrin ymdeimlad o berthyn ac yn annog aeddfedrwydd. Roedd arolygon staff a dysgwyr yn cefnogi'r farn hon, ac roedd dros 90% o ymatebwyr yn y ddau achos yn graddio ymddygiad fel 3, 4 neu 5 lle roedd 1 yn wael, a 5 yn rhagorol.

Ar raddfa o 1-5, lle mae 1 yn wael a 5 yn rhagorol, sut byddech chi'n graddio ymddygiad dysgwyr yn y coleg?




*Canran ymateb yn seiliedig ar ymatebion gan 155 o staff a 293 o ddysgwyr*

## Ymddygiadau negyddol

Er bod y rhan fwyaf o'r ymddygiadau negyddol yn rhai lefel isel, daeth sawl mater cyffredin i'r amlwg ar draws y colegau yr ymwelom â nhw, sef:

- **Hwyrni ac absenoldeb**: Cefnogwyd hyn yn yr arolwg staff, y nododd bron pob un o'r 60% o ymatebwyr mai diffyg presenoldeb a phrydlondeb gwael yw un o'u tair prif her ymddygiadol.
- **Diffyg sylw**: Roedd hyn yn amlycach mewn sesiynau llai difyr neu sesiynau yn seiliedig ar fedrau.
- **Defnydd amhriodol o ffonau symudol**: Dysgwyr yn cofnodi ac yn rhannu cynnwys yn ystod dosbarth. Hwn oedd yr ail ymddygiad mwyaf pryderus a nodwyd yn yr arolwg staff.
- **Fepio ac ysmygu**: Gwelwyd hyn yn aml ger mynedfeydd, a'r tu mewn i adeiladau, mewn rhai achosion. Amlygodd dysgwyr mai fepio yw'r ymddygiad negyddol mwyaf cyffredin mewn ardaloedd dysgu ac ardaloedd cymunol, a nododd staff fod hon yn broblem o bwys, hefyd.
- **Camddefnyddio cyfryngau cymdeithasol**: Roedd hyn yn cynnwys galw enwau a mân ymddygiad aflonyddgar ar blatfformau cyfryngau cymdeithasol.


Er eu bod yn brin, roedd yr ymddygiadau mwyaf pryderus yr adroddwyd amdanynt yn ystod ein hymweliadau yn cynnwys:

- **Cam-drin rhwng cyfoedion**: Fel aflonyddu rhywiol neu reolaeth drwy orfodaeth.
- **Cwerylon corfforol**: Maent yn aml yn gysylltiedig ag achosion o wrthdaro allanol sy'n digwydd yn y coleg.
- **Dwyn**: Yn enwedig mewn ardaloedd cymunol fel neuaddau bwyta.
- **Camddefnyddio sylweddau**: Canabis oedd y pryder mwyaf cyffredin.
- **Agweddau sy'n dangos casineb at ferched**: Cânt eu dylanwadu gan ffigurau proffil uchel ar gyfryngau cymdeithasol, gan arwain at ymddygiadau amharchus tuag at ddysgwyr benywaidd.

Nododd staff fod digwyddiadau difrifol yn cynnwys nifer fach o ddysgwyr ac roeddent yn aml yn gysylltiedig ag amgylchiadau unigol, ffactorau allanol, neu achosion o wrthdaro personol heb eu datrys. Daeth fepio, yn benodol, i'r amlwg fel mater treiddiol, ac mae dysgwyr yn fepio yn aml yn ystod egwylion neu rhwng gwersi.

Amlygodd yr arolwg staff fod gwrthod ymateb i geisiadau aelodau staff hefyd yn fater cyffredin, yn enwedig lle roedd dysgwyr yn dangos ymddygiadau negyddol mewn mannau cymunol.

## Ar sail eich profiadau yn eich ystafelloedd dosbarth neu weithdai eleni, allwch chi nodi hyd at dri math o ymddygiad negyddol yr ydych chi'n ei brofi amlaf?




*Canran ymateb yn seiliedig ar ymatebion gan 161 o staff a 279 o ddysgwyr*

## Amrywiadau ar draws rhaglenni colegau

Er gwaethaf gwahaniaethau demograffig ac o ran y mathau o gyrsiau, arhosodd tueddiadau ymddygiadol yn gyson, i raddau helaeth, ar draws colegau. Fodd bynnag, canfuom fod dysgwyr a staff wedi adrodd am y canlynol:

- Roedd **dysgwyr iau a niwrowahanol** yn arddangos problemau prydlondeb ac yn wynebu heriau â medrau cymdeithasol.
- **Mewn cyrsiau a oedd yn cael eu dilyn gan ddysgwyr gwrywaidd, yn bennaf**, codwyd pryderon ynghylch iaith amhriodol, agweddau sy’n dangos casineb at ferched, a mân achosion o gamddefnyddio sylweddau.
- Ar **gyrsiau lefel is**, adroddwyd bod lefelau uwch o ddiffyg sylw ac achosion o "driwantiaeth fewnol", lle mae dysgwyr yn mynd i’r coleg ond nid ydynt yn cymryd rhan mewn gwersi.
- **Mewn dosbarthiadau mwy mewn pynciau galwedigaethol**, roedd tarfu ymddygiadol yn digwydd yn amlach o ganlyniad i feintiau grwpiau cynyddol.

Er gwaethaf y gwahaniaethau hyn, datgelodd trafodaethau yn ystod ein hymweliadau fod ymddygiad yn gwella, ar y cyfan, wrth i ddysgwyr addasu yn unol â disgwyliadau eu colegau.

## Effaith y pandemig

Amlygodd staff a dysgwyr effaith sylweddol pandemig COVID-19 ar ymddygiadau dysgwyr, a sylwyd bod pryderon parhaus o hyd. Nododd staff:

- **Oedi datblygiadol**: Roedd llawer o ddysgwyr, yn enwedig dysgwyr 16 oed, yn dangos lefelau aeddfedrwydd yn debyg i blant iau.
- **Gwydnwch is**: Roedd dysgwyr yn llai abl i ymdopi â heriau academaidd a chymdeithasol.
- **Diffygion o ran medrau cymdeithasol**: Arweiniodd llai o ryngweithio wyneb yn wyneb yn ystod cyfnodau clo at anawsterau yn meithrin perthnasoedd.

Er bod ymddygiad wedi dirywio i ddechrau oherwydd y pandemig, canfu staff fod carfanau diweddar wedi dangos gwelliant graddol wrth i arferion normaleiddio a dysgu ddychwelyd i batrymau cyn y pandemig.

## Ymddygiad mewn lleoliadau penodol


Dangosodd canfyddiadau ein hymweliadau fod ymddygiad yn amrywio ar draws gwahanol ardaloedd y colegau:

- **Ystafelloedd dosbarth**: Yn gadarnhaol, ar y cyfan, yn enwedig mewn rhaglenni Lefel 3, er bod staff a dysgwyr wedi dweud bod tarfu yn fwy tebygol mewn grwpiau mawr, neu sesiynau llai difyr.

- **Ardaloedd cymunol**: Roedd materion fel fepio a thaflu sbwriel yn fwy tebygol o ddigwydd yn y mannau hyn, a oedd yn cynnwys llyfrgelloedd, ffreuturau a thoiledau.
- **Cludiant**: Adroddwyd am ymddygiadau aflonyddgar, gan gynnwys fepio a diffyg parch at yrwyr bws, yn enwedig ar ddechrau'r flwyddyn academaidd.
- **Amgylcheddau ar-lein**: Roedd camddefnyddio cyfryngau cymdeithasol, fel seiberfwlio, rhannu cynnwys amhriodol, a rhyngweithio amharchus, yn bryder mynych.

Cefnogwyd y safbwyntiau hyn gan ganlyniadau'r arolygon a ddatgelodd fod ymddygiadau problemus ymhlith dysgwyr yn cael eu hadrodd amlaf mewn ardaloedd cymunol fel ffreuturau, toiledau, coridorau, ac ardaloedd ysmygu / fepio. Nododd mwyafrif o ddysgwyr a llawer o staff fod yr ardaloedd hyn yn lleoliadau ar gyfer problemau ymddygiadol. Roedd cludiant colegau hefyd yn fater arwyddocaol, gyda 30% o ddysgwyr a 42% o staff yn amlygu ymddygiad gwael ar gludiant ac wrth arosfannau bysiau. Crybwyllwyd y cyfryngau cymdeithasol yn aml, ac roedd lleiafrif o ddysgwyr a thua hanner y staff yn nodi bod hyn yn blatfform ar gyfer rhyngweithio problemus.

**Yn eich profiad chi, ble mae ymddygiadau problemus yn fwy tebygol o ddigwydd? Dewiswch hyd at dri ateb o'r rhestr isod.**




*Canran ymateb yn seiliedig ar ymatebion gan 170 o staff a 291 o ddysgwyr*

Ymatebion i'r arolwg staff

## Mynd i'r afael â thueddiadau sy'n dod i'r amlwg

Nododd staff lawer o dueddiadau sy'n dod i'r amlwg y mae angen rhoi sylw iddynt, sef:

- **Fepio**: Her gynyddol o ran dysgwyr yn fepio mewn ardaloedd gwaharddedig.
- **Camddefnyddio cyfryngau cymdeithasol**: Roedd rhai platfformau, fel y rhai sydd â nodweddion / testunau / delweddau sy'n diflannu, yn ganolog i fwlio ac aflonyddu rhwng cyfoedion.
- **Agweddau sy'n dangos casineb at ferched**: Roedd dylanwadau gan ffigurau dadleuol ar y cyfryngau cymdeithasol yn hynod amlwg mewn cyrsiau sy'n cael eu dilyn gan ddysgwyr gwrywaidd, yn bennaf, lle roedd ymddygiadau amhriodol tuag at ddysgwyr benywaidd yn digwydd.
- **Heriau iechyd meddwl**: Roedd angen cymorth ychwanegol ar gyfer gorbryder ac iselder ar niferoedd cynyddol o ddysgwyr.
- **Anghenion dysgu ychwanegol (ADY)**: Niferoedd cynyddol o bobl ifanc ag ADY, wedi cael diagnosis a heb gael diagnosis.

Roedd colegau sydd â phrosesau mwy sefydledig yn mynd i'r afael â'r materion hyn trwy bolisïau clir, dulliau ymddygiad cadarnhaol, ac arferion sy'n ystyriol o drawma. Roedd y mesurau hyn yn helpu creu amgylchedd cefnogol a oedd yn annog ymddygiad parchus, tra'n mynd i'r afael ag anghenion amrywiol dysgwyr yn rhagweithiol.

# Ffactorau sy'n dylanwadu ar ymddygiad dysgwyr

## Ffactorau sy'n dylanwadu

Amlygodd ein hymweliadau, a oedd yn cynnwys trafodaethau â staff a dysgwyr, yn ogystal â theithiau dysgu, fod sawl ffactor yn cyfrannu at hyrwyddo ymddygiadau cadarnhaol ar draws colegau:

- **Annibyniaeth dysgwyr**: Fe wnaeth gallu dysgwyr i ddewis cyrsiau a rheoli amserlenni feithrin ymgysylltiad ac aeddfedrwydd, hyrwyddo cyfrifoldeb ac ymddygiad cadarnhaol.
- **Amgylchedd colegau**: Ymatebodd dysgwyr yn gadarnhaol i'r ymagwedd wedi'i gogwyddo at oedolion, ac roedd parch ar y ddwy ochr a pherthnasoedd cefnogol yn meithrin ymddygiad gwell. Roedd llawer o ddysgwyr yn gwerthfawrogi dechrau dysgu yn y coleg o'r newydd, a oedd yn rhoi hwb i'w hunan-barch a'u hyder.
- **Presenoldeb ac amlygrwydd staff:** Roedd amlygrwydd cyson staff mewn ardaloedd cymunol, coridorau, a mynedfeydd yn hyrwyddo ymddygiad cadarnhaol trwy feithrin synnwyr o atebolrwydd ac yn lleihau cyfleoedd i gamymddwyn. Nododd dysgwyr fod ymddygiad yn gwella'n sylweddol pan roedd staff yn bresennol ac yn ymgysylltu'n rheolaidd.

### Dylunio amgylcheddau colegau ar gyfer llwyddo

Mae Parth Dysgu Torfaen yng **Ngholeg Gwent** wedi dylunio'i amgylcheddau dysgu newydd i hyrwyddo ymddygiadau cadarnhaol. Mae'r cynllun, sy'n cynnwys ffenestri mawr a mannau agored, yn creu awyrgylch deniadol a thryloyw sy'n annog ymgysylltu ac yn lleihau teimladau o gaethiwed. Mae'r dyluniad hwn yn meithrin amgylchedd tawel a chynhwysol sy'n cefnogi gwaith unigol a grŵp, gan wella lles disgyblion ac annog ymddygiad parchus a chynhyrchiol.

Datgelodd ein hymweliadau hefyd fod ymddygiadau negyddol yn cael eu dylanwadu yn ogystal gan ffactorau amrywiol, yn enwedig ymhlith dysgwyr bregus:

- **Cyrsiau Mandadol:** Roedd ymddygiad dysgwyr yn waeth mewn dosbarthiadau gorfodol fel dosbarthiadau ailsefyll Saesneg a mathemateg TGAU a medrau hanfodol, lle roedd y cynnwys yn aml yn cael ei ddirnad yn ddiflas ac nid oedd wedi'i gysylltu'n uniongyrchol â dyheadau gyrfa neu ddiddordebau personol.
- **Cyfryngau cymdeithasol**: Roedd platfformau fel y rhai sydd â nodweddion / testun / delweddau sy'n diflannu, yn gwaethygu ymddygiadau negyddol, fel bwlio ac aflonyddu, ac yn aml yn chwarae rôl mewn ymestyn anghytuno a chreu mwy o wrthdaro.
- **Tarfu yn gysylltiedig â'r pandemig**: Roedd cyfnodau clo a dysgu ar-lein yn lleihau cyfleoedd i gymdeithasu, gan arwain at fedrau cyfathrebu a medrau cymdeithasol gwael. Roedd absenoldebau cynyddol hefyd yn gysylltiedig â'r rhagdybiaeth y

gallai dysgwyr ddal i fyny yn ddiweddarach.

- **Amgylchiadau personol**: Roedd heriau iechyd meddwl, profiadau niweidiol yn ystod plentyndod, ac ymddygiad wedi'i ffurfio gan drawma, yn enwedig ymhlith dysgwyr. Nododd bron i hanner y dysgwyr yn yr arolwg fod amgylchiadau personol yn ffactor arwyddocaol mewn ymddygiad gwael. Roedd yr arolwg staff hefyd yn adlewyrchu hyn, a bron i 75% o ymatebwyr yn ei raddio ymhlith y tri phrif ddylanwad.
- **Perthnasoedd etifeddol â chyfoedion**: Bwlio neu faterion cymdeithasol heb eu datrys o'r ysgol yn parhau yn y coleg, yn enwedig mewn grwpiau ffrindiau clòs, gan arwain at alw enwau, eithrio ac aflonyddu.
- **Dyluniad adeiladau:** Er bod mannau mewn colegau yn aml yn meithrin ymddygiadau cadarnhaol, arweiniodd y diffyg gwahaniaethau clir rhwng ardaloedd cymdeithasol, dysgu a thawel at ddryswch a chamddefnyddio o bryd i'w gilydd, ac roedd rhai dysgwyr yn eistedd ar lawr yn bwyta mewn coridorau.

### Perthnasoedd â staff

Roedd perthnasoedd cadarnhaol â staff yn ffactor pwysig o ran ffurfio ymddygiad da. Roedd dysgwyr yn gwerthfawrogi staff a oedd yn eu trin â pharch, yn gosod disgwyliadau clir, ac yn cynnal ffiniau proffesiynol. Teimlai llawer o ddysgwyr fod amgylchedd cefnogol a thawel y coleg yn welliant nodedig dros brofiadau blaenorol yn yr ysgol lle roedd dysgwyr yn aml yn cael mwy o gyfarwyddyd ynglŷn â beth i'w wneud yn hytrach na chael mwy o ryddid i ddewis. Pan roedd colegau'n mabwysiadu dulliau sy'n ystyriol o drawma, a oedd yn cynnwys creu amgylchedd lle roedd staff yn cael eu hyfforddi i ddeall ac ymateb i effeithiau trawma, ochr yn ochr â hyfforddiant ymddygiad cadarnhaol, roedd staff yn teimlo'n fwy abl i fynd i'r afael â heriau ymddygiadol yn rhagweithiol, gan greu awyrgylch meithringar lle roedd dysgwyr yn teimlo'u bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u parchu.

### Perthnasoedd â chyfoedion

Roedd perthnasoedd â chyfoedion yn hanfodol wrth ffurfio ymddygiad. Roedd rhyngweithio cadarnhaol â chyfoedion yn gwella ymddygiad, ond roedd dynameg negyddol yn aml yn arwain at fwlio, eithrio, neu aflonyddu. Roedd dysgwyr iau, yn enwedig y rhai oedd newydd ddod o'r ysgol uwchradd, yn fwy tueddol o ffurfio clîciau, a oedd weithiau'n arwain at ynysu neu eithrio dysgwyr eraill. Roedd ymyriadau staff, fel ad-drefnu neu sesiynau torri'r iâ, yn effeithiol i ryw raddau wrth liniaru'r heriau hyn.

### Patrymau mewn grwpiau dysgwyr

Ar sail ein hymweliadau a'r arolwg staff, daeth sawl patrwm allweddol i'r amlwg ynghylch dioddefwyr a chyflawnwyr ymddygiad negyddol:

- **Derbynwyr ymddygiad negyddol**: Roedd y dysgwyr hyn yn aml yn dawelach, yn arddangos nodweddion yn gysylltiedig â niwrowahaniaeth neu ADY, ac yn dod o gefndiroedd teuluol cymhleth. Roedd dysgwyr benywaidd mewn meysydd lle mae dysgwyr gwrywaidd, yn bennaf, fel chwaraeon neu adeiladu, yn hynod agored i gael

eu bwlio oherwydd rhywedd. Hefyd, roedd gan lawer o ddioddefwyr broblemau iechyd meddwl, gorbryder, neu nid oeddent yn cael cymorth gartref. Yn ychwanegol, roedd dysgwyr o gefndiroedd lleiafrifol (e.e. LHDTC+, dysgwyr du ac ethnig lleiafrifol) yn wynebu lefelau uwch o aflonyddu a bwlio gwahaniaethol.

- **Cyflawnwyr ymddygiad negyddol**: Roeddent yn aml yn ddysgwyr gwrywaidd, yn enwedig y rhai ar gyrsiau galwedigaethol fel adeiladu, lle roedd tarfu weithiau'n cael ei ystyried yn ffordd o berthyn. Roedd llawer o gyflawnwyr yn dod o gefndiroedd difreintiedig lluosog, gan gynnwys teuluoedd incwm isel, cartrefi wedi'u hamharu, neu roedd ganddynt ADY. Roedd myfyrwyr o ardaloedd economaidd-gymdeithasol tlotach neu'r rhai a oedd wedi cael profiadau niweidiol yn ystod plentyndod, yn arddangos lefelau uwch o ymddygiad aflonyddgar. Roedd y dysgwyr hyn, nad oeddent yn aml yn dangos aeddfedrwydd emosiynol, yn dangos ymddygiadau negyddol, weithiau wedi eu gyrru gan bwysau gan gyfoedion, synnwyr o hawl, neu ddiffyg atebolrwydd. Roedd ymddygiad negyddol yn fwy amlwg mewn cyrsiau lefel 1 lle roedd aeddfedrwydd emosiynol yn datblygu o hyd, mewn llawer o achosion.

### Ystyriaethau ar gyfer dysgwyr ag ADY

Roedd dysgwyr ag ADY yn wynebu heriau unigryw, gan gyfrannu at eu gorgynrychioli mewn digwyddiadau fel dioddefwyr a chyflawnwyr. Roedd materion cyffredin yn cynnwys:

- **Rheolaeth rheoleiddio emosiynol**: Roedd rhwystredigaeth neu orlwytho synhwyraidd yn arwain at byliau neu encilio.
- **Rhyngweithio â chyfoedion**: Roedd dysgwyr ag ADY weithiau'n ei chael yn anodd ffurfio perthnasoedd, gan arwain at ynysu neu wrthdaro cymdeithasol.
- **Gwrthwynebu newid**: Roedd trosglwyddo rhwng gwersi neu arferion newydd weithiau'n sbarduno gorbryder neu herio.

Dangosodd ein canfyddiadau fod cymorth ac ymagweddau at reoli ymddygiad ar gyfer dysgwyr ag ADY yn gynhwysfawr a chadarn, ar y cyfan, gan adlewyrchu ymrwymiad i gynwysoldeb a gofal unigoledig. Roedd enghreifftiau'n cynnwys colegau'n rhoi strategaethau teilwredig, sy'n ystyriol o drawma, ar waith, sydd wedi'u cynllunio i fynd i'r afael ag achosion sylfaenol heriau ymddygiadol, gan gydnabod anghenion amrywiol dysgwyr ag ADY. Roedd arferion cyson a chymorth un i un yn ganolog i feithrin sefydlogrwydd, lleihau gorbryder, a lleihau ymddygiadau aflonyddgar i'r eithaf. Roedd nodi anghenion yn gynnar yn flaenoriaeth allweddol, gan alluogi ymyriadau amserol a oedd yn gweithredu i atal problemau ymddygiadol ac yn cefnogi datblygiad cynlluniau personoledig i arwain dysgwyr yn effeithiol. Roedd cydweithio ag asiantaethau allanol, fel awdurdodau lleol a gwasanaethau iechyd meddwl, yn cryfhau'r fframwaith cymorth, gan ddarparu arbenigedd i reoli anghenion ymddygiadol cymhleth. Pwysleisiwyd bod cyfathrebu clir â dysgwyr a'u teuluoedd yn hanfodol i feithrin ymddiriedaeth, gan fynd i'r afael ag ymddygiad yn holistaidd, a hyrwyddo cysondeb rhwng amgylcheddau'r cartref a'r coleg. Amlygwyd bod trosglwyddiadau wedi'u cefnogi, gan gynnwys rhaglenni mentora a gwersi bugeiliol strwythuredig, yn hanfodol i helpu dysgwyr ag ADY i addasu i


amgylcheddau newydd hefyd, gan leihau'r tebygolrwydd o anawsterau ymddygiadol yn ystod cyfnodau o newid.

### Rôl y cyfryngau cymdeithasol

Roedd gan y cyfryngau cymdeithasol rôl ddeuol mewn dylanwadu ar ymddygiad. Er ei fod yn hwyluso cysylltiadau ar gyfer dysgwyr ymylol, roedd hefyd yn ymestyn gwrthdaro ac yn dwysáu bwlio, aflonyddu, a cham-drin rhwng cyfoedion. Dywedwyd yn aml fod platfformau cyfryngau cymdeithasol yn ffynonellau ymddygiad amhriodol, fel addasu lluniau neu wawdio pobl eraill. Yn aml, nid oedd dysgwyr yn ymwybodol o effaith eu gweithredoedd, ac yn eu hystyried yn ddiniwed hyd nes bod rhywun yn eu herio amdano. Nododd yr arolwg staff mai'r cyfryngau cymdeithasol oedd yr ail ffactor mwyaf cyffredin sy'n dylanwadu ar ymddygiad negyddol, ac roedd bron i 60% o ymatebwyr yn ei raddio ymhlith y tri phrif ffactor. Mae llawer o golegau wedi rhoi ymgyrchoedd ymwybyddiaeth ddigidol a mecanweithiau adrodd clir ar waith, ond mae'r cyfryngau cymdeithasol yn her barhaus o hyd.


**Pa ffactorau ydych chi'n meddwl sy'n dylanwadu fwyaf ar ymddygiad gwael dysgwyr? (Dewiswch hyd at dri)**

Ymatebion i'r arolwg dysgwyr




*Canran ymateb yn seiliedig ar ymatebion gan 285 o ddysgwyr*

## Ymatebion i’r arolwg staff




*Canran ymateb yn seiliedig ar ymatebion gan 170 o staff*

# Ymateb i ymddygiadau negyddol

## Cofnodi ac olrhain ymddygiad

Roedd y rhan fwyaf o golegau yr ymwelom â nhw wedi sefydlu prosesau ar gyfer cofnodi ac olrhain ymddygiad, yn aml gan ddefnyddio platfformau digidol. Yn nodweddiadol, roedd digwyddiadau ymddygiadol a oedd yn cael eu cofnodi yn cynnwys materion prydlondeb, presenoldeb gwael, bwlio, gwahaniaethu, ymddygiad aflonyddgar fel camddefnyddio ffonau neu fepio, a digwyddiadau mwy difrifol fel ymladd neu gamddefnyddio sylweddau. Roedd yr arolwg staff yn cefnogi'r canfyddiad hwn, lle dywedodd bron i 80% o staff fod eu colegau'n cadw cofnodion ymddygiad. Ymhlith y rhai nad ymatebon nhw'n gadarnhaol, nododd bron pob un ohonynt eu bod yn ansicr ynghylch p'un a oedd y cofnodion hyn yn cael eu cadw, yn hytrach na datgan nad oeddent. Roedd y systemau cofnodi ac olrhain hyn yn galluogi staff i gofnodi digwyddiadau yn systematig gan ddarparu trosolwg hygyrch o dueddiadau ymddygiadol unigol a grŵp.

Mewn un coleg, roedd y drefn o ran cofnodi ymddygiad yn anghyson, yn dibynnu ar gyfathrebu anffurfiol neu ddogfennau anghyflawn. Roedd hyn yn rhwystro nodi materion mynych a gwerthuso effeithiolrwydd o ran ymyrraeth. Yn yr achos hwn, roedd y coleg wedi cyflwyno rhaglen beilot i gynnwys systemau olrhain digidol mwy trylwyr, y dywedodd staff eu bod yn gwella cysondeb ac ymatebolrwydd, fel ei gilydd.

## Categoreiddio ymddygiadau

Roedd categoreiddio ymddygiadau negyddol yn nodwedd gyffredin yn y rhan fwyaf o'r colegau yr ymwelom â nhw. Roedd fframweithiau clir yn cael eu defnyddio i wahaniaethu rhwng digwyddiadau mân, cymedrol a difrifol, gan helpu sicrhau ymatebion cymesur. Er enghraifft, aethpwyd i'r afael yn anffurfiol â mân faterion fel cyrraedd yn hwyr o bryd i'w gilydd, tra roedd achosion mwy difrifol, gan gynnwys bwlio neu ymosodedd corfforol, yn sbarduno gweithdrefnau disgyblu ffurfiol.

Roedd colegau a oedd yn mabwysiadu systemau strwythuredig, y cyfeirir atynt yn aml fel fframweithiau â haenau neu fatricsau ymddygiad, yn darparu enghreifftiau clir o ymddygiadau ar wahanol lefelau ac arweiniad cyfatebol ar ymatebion priodol. Roedd y systemau hyn yn cefnogi cysondeb ar draws adrannau ac yn helpu staff i sicrhau tegwch wrth fynd i'r afael ag ymddygiadau negyddol. Fodd bynnag, mewn ychydig iawn o golegau, nododd staff fod diffyg eglurder mewn categoreiddio, a oedd yn arwain at anghysondebau o ran sut roedd ymddygiadau'n cael eu rheoli.

## Sut caiff gwybodaeth am faterion ymddygiad ei defnyddio

Roedd data ymddygiadol yn chwarae rôl sylweddol mewn ffurfio strategaethau'r coleg ac ymyriadau unigoledig. Roedd uwch dimau arweinyddiaeth yn dadansoddi data cyfanredol yn aml i nodi tueddiadau ac addasu polisïau. Er enghraifft, nododd un coleg

fod patrwm o darfu cynyddol yn ystod cyfnodau heb eu goruchwylio, a rhoddodd weithgareddau strwythuredig ar waith yn ystod y cyfnodau hyn, gan arwain at lai o ddigwyddiadau.

Defnyddiwyd cofnodion ymddygiad i deilwra cynlluniau cymorth ar lefel unigol, fel pennu mentoriaid i ddysgwyr â chyfraddau absenoldeb uchel a chreu amserlenni personoledig, a arweiniodd at bresenoldeb ac ymgysylltu gwell. Fodd bynnag, dywedodd ychydig o golegau fod diffyg arbenigedd staff neu amser i ddadansoddi data yn effeithiol, gan rwystro'i gymhwyso wrth wneud penderfyniadau.

### Ymagweddau at reoli ymddygiad

Roedd y rhan fwyaf o golegau'n defnyddio ymagweddau cytbwys at reoli ymddygiad, gan gyfuno cosbau â mesurau cefnogol. Nod y polisïau hyn oedd mynd i'r afael ag achosion sylfaenol ymddygiadau negyddol tra'n cynnal ffiniau clir. Roedd strategaethau cyffredin yn cynnwys:

- **Ymyriadau bugeiliol**, gan gynnwys cwnsela
- **Arferion adferol** a oedd yn hwyluso sgyrsiau ystyrlon rhwng partïon a oedd wedi'u heffeithio
- **Gweithdai ymddygiadol staff** yn canolbwyntio ar fedrau fel datrys gwrthdaro neu reoleiddio emosiynol
- **Rhaglenni mentora**, yn paru dysgwyr â staff neu gyfoedion cefnogol
- **Amserlennu amgen** neu amserlenni personoledig i fynd i'r afael ag anghenion unigol
- **Ataliadau** wedi'u paru â mesurau cefnogol i annog myfyrio


Mewn llawer o achosion, roedd colegau wedi rhoi fframweithiau penodol ar waith i arwain rheoli ymddygiad. Roedd '**Barod, Parchus, Diogel'** yn un model o'r fath, yn canolbwyntio ar strategaethau rhagweithiol i annog ymddygiadau priodol ac atal camymddwyn. Dywedodd colegau a oedd yn defnyddio ymagweddau ymddygiad cadarnhaol fel hwn, y bu gostyngiadau mewn digwyddiadau difrifol, a gwelliannau yn ymgysylltiad cyffredinol dysgwyr.

Roedd arferion sy'n ystyriol o drawma hefyd yn cael eu mabwysiadu'n eang, yn enwedig mewn lleoliadau â phoblogaethau dysgwyr amrywiol neu fregus. Roedd yr ymagweddau hyn yn helpu staff i ddeall achosion sylfaenol ymddygiadau heriol ac ymateb ag empathi a chymorth targedig. Dywedodd staff fod hyfforddiant sy'n ystyriol o drawma wedi cynyddu eu hyder o ran rheoli achosion cymhleth yn effeithiol.

Mewn ychydig iawn o golegau, fodd bynnag, roedd polisïau ymddygiad yn pwyso'n drwm ar fesurau cosbol, gan gynnwys prosesau disgyblu ffurfiol, gan arwain at rybuddion, a chynlluniau gweithredu, mewn rhai achosion, ac ataliadau neu waharddiadau mewn rhai achosion. Dywedodd staff yn y lleoliadau hyn nad oedd hyn yn aml yn mynd i'r afael â materion sylfaenol, gan arwain at gamymddwyn mynych. I ymateb i hynny, roedd y colegau hyn wedi dechrau integreiddio dulliau adferol, gan adrodd am berthnasoedd

gwell rhwng staff a dysgwyr o ganlyniad. Datgelodd yr arolwg staff fod lleiafrif o staff o'r farn fod ymdriniaeth braidd yn aneffeithiol neu'n aneffeithiol iawn o ran ymddygiad dysgwyr yn eu colegau. Dywedodd lleiafrif o ymatebwyr nad oeddent yn gwybod sut roedd eu colegau'n gwerthuso effaith eu hymagweddau ymddygiad.

**Yn eich barn chi, pa mor dda y mae'r coleg yn delio ag ymddygiad gwael dysgwyr?**




*Canran ymateb yn seiliedig ar ymatebion gan 171 o staff a 290 o ddysgwyr*

## Penderfyniadau am ataliadau a gwaharddiadau

Roedd prosesau gwneud penderfyniadau ynghylch ataliadau a gwaharddiadau yn cael eu harwain gan bolisïau yn y rhan fwyaf o golegau. Yn nodweddiadol, roedd y prosesau hyn yn cynnwys:

- **Adolygu'r digwyddiad** gan uwch staff i sicrhau bod penderfyniadau'n deg a chymesur
- **Ymdrechion i archwilio ymyriadau amgen**, fel cyfarfodydd adferol neu gynlluniau cymorth estynedig, cyn gwahardd dysgwyr
- **Cyfathrebu rheolaidd â rhieni neu ofalwyr** i ddarparu tryloywder a chymorth

Mewn lleiafrif o golegau, nodwyd anghysondebau yn y ffordd y gwnaed y penderfyniadau hyn, yn aml oherwydd polisïau aneglur neu hyfforddiant staff cyfyngedig. Yn yr achosion gorau, roedd colegau'n cyflwyno rhaglenni hyfforddiant cynhwysfawr ac yn diweddaru eu gweithdrefnau disgyblu i fynd i'r afael â'r materion hyn. Helpodd y newidiadau hyn i sicrhau tegwch a chysondeb wrth ymdrin â digwyddiadau ymddygiadol difrifol.

Pan roedd dysgwyr yn cael eu hatal, roedd colegau yn nodweddiadol yn cynnig ymagwedd strwythuredig at gefnogi ailintegreiddio a mynd i'r afael ag unrhyw faterion sylfaenol. Yn gyffredinol, nid oedd y cyfnod atal yn cael ei ystyried yn gosbol, ond yn hytrach yn gyfle i fyfyrio a lleddfu, gan alluogi dysgwyr i gael y safbwynt angenrheidiol cyn ailgydio yn eu hastudiaethau. Mewn achosion o wahardd, roedd colegau yn aml yn gwneud trefniadau amgen trwy weithio mewn partneriaeth â thimau awdurdodau lleol ac asiantaethau priodol eraill.

### Cefnogi newid cadarnhaol trwy gamau clir

Mae **Coleg Caerdydd a'r Fro** yn mynd i'r afael â materion ymddygiadol a disgyblu trwy broses glir â thri cham. Mae cam 1 yn canolbwyntio ar ymyrraeth gynnar, ac fe gaiff myfyrwyr sydd mewn perygl eu nodi a'u hadrodd amdanynt yn wythnosol gan swyddogion ymgysylltu. Mae cam 2 yn cynnwys canlyniadau cliriach, gyda throthwyon diffiniedig ar gyfer pob cam ac ymatebion mwy cyson i ymddygiad gwael. Cam 3 yw'r cam terfynol, lle caiff canlyniadau ffurfiol eu cymhwyso, ac amlinellir pedwar canlyniad posibl, gan gynnwys atal a gwahardd. Mae'r broses yn effeithiol, yn sicrhau cysondeb staff ac ymatebion priodol. Mae'r effaith wedi bod yn gadarnhaol, a bu gwelliannau o ran ymdrin ag ymddygiad a chyflwyno ymagwedd rheoli ymddygiad newydd, wedi'i datblygu'n ofalus, a groesawyd gan staff.

# Hyrwyddo ymddygiadau cadarnhaol

## Gosod disgwyliadau a sicrhau cysondeb

Mae'r rhan fwyaf o golegau'n gosod disgwyliadau clir ar gyfer ymddygiad dysgwyr trwy bolisïau strwythuredig ac arferion cyson, sy'n ganfyddiad a adleisir yng nghanlyniadau'r arolwg dysgwyr, lle dywedodd 80% o ddysgwyr fod disgwyliadau clir ar waith. Roedd fframweithiau ymddygiadol yn pwysleisio bod yn barod, dangos parch, a chynnal diogelwch. Roedd yr egwyddorion hyn yn cael eu defnyddio ar draws llawer o sefydliadau i ddarparu arweiniad syml ar gyfer dysgwyr a staff. Roedd negeseuon yn cael eu cefnogi gan bosteri dwyieithog, arddangosiadau ar sgrin, ac atgyfnerthu cyson yn ystod sesiynau ymsefydlu, gan sicrhau hygyrchedd ar gyfer poblogaethau dysgwyr amrywiol. Cefnogwyd y farn hon hefyd yng nghanlyniadau'r arolwg dysgwyr, lle roedd dros ddau o bob tri dysgwr yn dweud bod y disgwyliadau hynny yn gysylltiedig ag ymddygiad wedi cael eu gwneud yn glir yn y cyfnod ymsefydlu. Roedd ymgyrchoedd fel "caru eich campws" yn atgyfnerthu disgwyliadau ymhellach, gan hyrwyddo balchder yn yr amgylchedd dysgu trwy ddeunyddiau gweledol a chyfathrebu â staff.

Roedd dulliau allweddol yn cynnwys:


- **Gofyn bod laniardiau** yn cael eu gwisgo bob amser, a staff yn herio diffyg cydymffurfio yn gyson
- **Cyfarch dysgwyr** fel maent yn dod i mewn i'r coleg ac ar ddechrau gwersi, a dweud hwyl fawr ar y diwedd i feithrin diwylliant o barch a chysondeb
- **Gwobrwyo ymddygiad cadarnhaol** trwy dystysgrifau, rafflau gwobrau, ac adborth uniongyrchol. Dywedodd dysgwyr fod y rhain yn gymhellol a chalonogol
- **Esbonio polisïau** i ddysgwyr yn ystod y cyfnod ymsefydlu, gan ddefnyddio iaith hygyrch a fframweithiau clir
- **Cyfathrebu â rhieni a gofalwyr** trwy adroddiadau, cyfarfodydd, a digwyddiadau ymgysylltu gan sicrhau bod teuluoedd yn cael eu hysbysu ac yn cyfranogi mewn cefnogi ymddygiad dysgwyr

Roedd y strategaethau hyn, wedi'u cyfuno â negeseuon gweledol, fel posteri ac arddangosfeydd digidol, yn atgyfnerthu negeseuon am ymddygiadau disgwyliedig, ynghyd ag arweinyddiaeth weledol, yn helpu sefydlu a chynnal diwylliant cyson o ddisgwyliadau uchel.

### Ymgorffori ymddygiadau cadarnhaol trwy Barod, Parchus, Diogel

Mae **Coleg Chweched Dosbarth Catholig Dewi Sant** yn hyrwyddo'i ethos, sef "Barod, Parchus, Diogel" trwy ffocws clir ar feithrin ymddygiadau cadarnhaol gan ddysgwyr. Mae'r tair egwyddor hon yn sail i Siarter y Coleg ac yn arwain rhyngweithio mewn ystafelloedd dosbarth ac ar y campws ehangach. Mae'r ymgyrch yn pwysleisio camau ymarferol a gwerthoedd fel prydlondeb, caredigrwydd, a blaenoriaethu diogelwch, wedi'u cefnogi gan bethau gweledol i atgoffa, fel posteri. Mae staff yn modelu'r ymddygiadau hyn trwy fentrau fel cyfarfod a chyfarch myfyrwyr, meithrin perthnasoedd, a chydnabod ymddygiad cadarnhaol. Defnyddir dull adferol i fynd i'r afael â heriau, gan sicrhau atebolrwydd a thwf. Mae'r ethos hwn yn meithrin amgylchedd cefnogol sy'n cyd-fynd â chenhadaeth y coleg o ran parch a chymuned.

**Yn eich barn chi, pa un o'r datganiadau canlynol am ymddygiad sy'n wir am y disgwyliadau yn eich coleg chi?**




*Canran ymateb yn seiliedig ar ymatebion gan 170 o staff a 290 o ddysgwyr*

## Gosod yr ethos a'r diwylliant

Cafodd yr ethos a'r diwylliant yn y colegau yr ymwelom â nhw eu ffurfio ar y cyd gan staff a dysgwyr, yn ogystal â gyda phartneriaid allanol fel yr heddlu lleol, swyddogion cymorth cymunedol, a'r gwasanaeth tân. Roedd rolau fel rheolwyr bugeiliol ac uwch arweinwyr yn goruchwylio ymddygiad yn chwarae rhan bwysig mewn cynnal aliniad â gwerthoedd sefydliadol.

**Roedd cyfranwyr allweddol yn cynnwys:**

- **Staff ar bob lefel,** yr oedd y cymhwyso cyson ganddynt o ran polisïau ymddygiadol yn meithrin ymddiriedaeth ymhlith dysgwyr
- Roedd **dysgwyr,** trwy rolau fel cynrychiolwyr a llysgenhadon myfyrwyr, yn chwarae rôl allweddol mewn dylanwadu ar bolisïau a meithrin diwylliant cadarnhaol ar y cyd; dywedodd hanner yr ymatebwyr i'r arolwg dysgwyr fod y mathau hyn o gyfleoedd ar gael i ddysgwyr a oedd yn dangos ymddygiadau da
- **Rhieni a gofalwyr,** a oedd yn ymgysylltu trwy ddigwyddiadau a chyfarfodydd, a oedd yn cefnogi dealltwriaeth o ddisgwyliadau ar y ddwy ochr
- **Partneriaid allanol,** fel swyddogion heddlu a sefydliadau lleol, a oedd yn cyflwyno gweithdai ar faterion perthnasol fel troseddau cyllyll ac ymwybyddiaeth o gyfryngau cymdeithasol
- **Cysylltiadau â chyflogwyr,** sy'n gosod disgwyliadau am ofynion cyrsiau ac yn pwysleisio'r ymddygiadau proffesiynol sy'n ofynnol ar gyfer y gweithle

Sicrhaodd yr ymdrechion cydweithredol hyn fod polisïau ymddygiadol yn berthnasol ac yn ymatebol i anghenion dysgwyr.

### Partneriaethau ar waith: Trawsnewid ymddygiadau dysgwyr

Mae **Coleg Sir Benfro** yn meithrin ymddygiad cadarnhaol ymhlith dysgwyr trwy waith partneriaeth a gwaith amlasiantaethol cryf. Mae'r coleg yn cynnal cysylltiadau agos ag ysgolion trwy gytundebau sy'n cael eu hadolygu bob blwyddyn gyda'r awdurdod lleol ac aelodau o'r pwyllgor ffurfiol, gan gynnwys penaethiaid a llywodraethwyr uwchradd. Mae cysylltiadau cryf â chyflogwyr yn chwarae rôl ganolog mewn nosweithiau agored, digwyddiadau cwricwlwm, ffeiriau swyddi, a rhaglenni cyrchfannau yn canolbwyntio ar yrfaoedd, sy'n ymgorffori disgwyliadau gweithle mewn dysgu. Mae'r coleg hefyd yn cydweithio â'r Bwrdd Diogelu Rhanbarthol a sefydliadau addysg bellach eraill i gryfhau gweithdrefnau diogelu a mentrau lles. Mae gweithiwr ieuenctid ar y safle yn cefnogi dysgwyr ymhellach trwy ymgysylltu'n uniongyrchol â thimau awdurdodau lleol, gan sicrhau trosglwyddiadau personoledig ac ymagwedd gydlynus at lwyddiant dysgwyr.

## Ffocws ar ymddygiad mewn rhaglenni dysgwyr

Roedd colegau'n rhoi pwyslais cryf ar ymgorffori ymddygiad mewn rhaglenni dysgwyr trwy weithgareddau strwythuredig sydd wedi'u cynllunio i ddatblygu medrau personol, cymdeithasol a phroffesiynol. Roedd sesiynau tiwtorial ar flaen y gad o ran yr ymagwedd hon, gan ddarparu cyfle cyson a ffocysedig i ddysgwyr ymgysylltu â themâu ymddygiadol allweddol.

**Roedd strategaethau allweddol yn cynnwys:**

- Roedd **rhaglenni tiwtorial** yn gonglfaen datblygiad ymddygiadol, gan fynd i'r afael â themâu fel parch, gwydnwch a chynwysoldeb. Roedd sesiynau yn aml yn

archwilio materion hanfodol, gan gynnwys hiliaeth, rhywiaeth, a heriau cymdeithasol modern, sy'n galluogi dysgwyr i fyfyrio ar eu hymddygiadau eu hunain a chyfrifoldebau cymdeithasol.

- **Sesiynau bugeiliol** wedi'u hategu gan sesiynau tiwtorial trwy ganolbwyntio ar destunau lles ehangach fel iechyd meddwl, gwydnwch, a defnydd diogel o gyfryngau cymdeithasol, gan helpu dysgwyr i reoli heriau personol.
- Roedd **digwyddiadau siaradwyr gwadd rheolaidd** yn dod ag arbenigedd ychwanegol i raglenni ymddygiadol, yn ymdrin â thestunau fel diogelwch wrth yrru, gwrth-hiliaeth, twyll, ac ymwybyddiaeth o gyffuriau, a oedd yn ddifyr ac yn ysgogi'r meddwl, ym marn dysgwyr.
- Roedd **mentrau cydnabod,** gan gynnwys rafflau gwobrau bob tymor, gwobrau blynyddol, a thystysgrifau am ymddygiad cadarnhaol, yn cymell dysgwyr ac yn atgyfnerthu gwerth ymddygiad parchus a chyfrifol.

Roedd y gweithgareddau strwythuredig hyn yn hanfodol i feithrin diwylliant o barch, cynhwysiant a thwf personol, gan sicrhau bod dysgwyr yn cael eu paratoi'n dda ar gyfer llwybrau academaidd neu broffesiynol yn y dyfodol.

### Arloesedd ymdrochol: Ffurfio ymddygiadau trwy brofiad

Mae **Coleg Cambria** wedi buddsoddi'n sylweddol mewn ystafell ymdrochi realiti rhithwir sydd wedi'i hanelu at ymestyn profiadau o amgylch amrywiaeth o destunau, gan gynnwys ymddygiad. Mae'r adnodd hwn wedi'i ddylunio nid yn unig i gefnogi cyflwyno'r cwricwlwm, ond hefyd i ddarparu cyfleoedd unigryw i hyrwyddo ymddygiad cadarnhaol. Gall leihau gwahaniaethu trwy 'daith trwy ddiwylliannau eraill' hyrwyddo dealltwriaeth o iaith y corff ac ymddygiad ymosodol trwy 'brofiad arddangos canol dinas' a lleihau argyfwng emosiynol ar gyfer dysgwyr niwrowahanol a gorbryderus trwy baratoi cyn trip neu ymweliad byw. Mae'r fenter hon yn annog trafodaethau sy'n helpu chwalu stereoteipiau a hyrwyddo mwy o oddefgarwch a dealltwriaeth, gan ddylanwadu ar ymddygiadau o fewn y coleg ac yn y gymuned ehangach, yn y pen draw.

## Ymagweddau ar gyfer grwpiau ac unigolion penodol

Roedd y colegau yr ymwelom â nhw yn defnyddio ystod o ymagweddau teilwredig at gynorthwyo disgyblion ag anghenion ychwanegol neu heriau ymddygiadol. Pan roedd arferion sy'n ystyriol o drawma ac ymyriadau rhagweithiol yn cael eu defnyddio, roedd yr ymagweddau hyn yn mynd i'r afael â gofynion penodol yn effeithiol.

**Roedd ymagweddau allweddol yn cynnwys:**

- **Cymorth ar gyfer dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY),** fel gofodau synhwyraidd-gyfeillgar ac arferion unigol
- **Cydweithio ag ysgolion** ac awdurdodau lleol i nodi heriau a rhoi ymyriadau un i un ar waith

- **Mynediad i hybiau lles** a chardiau amser allan ar gyfer dysgwyr sydd angen cymorth ychwanegol
- **Digwyddiadau a pholisïau penodol** ar gyfer grwpiau amrywiol, gan gynnwys gweithdai gwrth-hiliaeth a dathliadau Pride

Sicrhaodd y dulliau tra ystyriol hyn fod dysgwyr yn cael mwy o gymorth i oresgyn rhwystrau a heriau tra'n hyrwyddo diwylliant o barch, dealltwriaeth a chynwysoldeb, hefyd.

## Cymorth ac arweiniad

### Cymorth ar gyfer dysgwyr

Roedd y colegau yr ymwelom â nhw yn darparu ystod o wasanaethau targedig i hyrwyddo ymddygiad cadarnhaol a mynd i'r afael â dylanwadau aflonyddgar. Roedd timau mewnol, fel cydlynwyr lles, yn darparu ymyriadau cynnar ar gyfer materion lefel isel fel prydlondeb gwael a defnyddio ffonau heb ganiatâd. Roedd digwyddiadau rheolaidd yn cyflwyno dysgwyr i adnoddau cymorth, yn enwedig ar adegau tyngedfennol fel dechrau'r tymor neu ar ôl egwylion estynedig. Roedd dulliau sy'n ystyriol o drawma yn cynorthwyo dysgwyr â heriau ymddygiadol cymhleth, gan gynnwys y rhai ag ADY. Roedd systemau adrodd diogel, dienw, yn annog dysgwyr i rannu pryderon am fwlio neu aflonyddu, hyrwyddo atebolrwydd ac ymddiriedaeth.

Yn ddiddorol, nid oedd mwy na hanner yr ymatebwyr i'r arolwg dysgwyr yn gwybod a oedd cymorth ar gael i gyflawnwyr neu dystion i ymddygiad negyddol. Roedd bron i hanner ohonynt hefyd yn ansicr am argaeledd staff arbenigol i fynd i'r afael â materion ymddygiadol. Adlewyrchwyd yr ansicrwydd hwn yn yr arolwg staff, lle roedd chwarter yr ymatebwyr yn ansicr ynghylch p'un a oedd tîm dynodedig ymddygiad dysgwyr yn bodoli, a dywedodd chwarter arall o ymatebwyr nad oedd tîm o'r fath ar gael yn eu coleg nhw.

Roedd partneriaethau allanol yn chwarae rôl hanfodol mewn cefnogi dysgwyr a mynd i'r afael â heriau ymddygiadol yn y colegau yr ymwelom â nhw. Trwy gydweithio ag ystod o asiantaethau allanol, mabwysiadodd colegau ymagwedd gyfannol a oedd yn mynd i'r afael ag achosion uniongyrchol a gwaelodol ymddygiad aflonyddgar. Roedd partneriaethau â gwasanaethau iechyd meddwl yn hynod bwysig o ran cynorthwyo dysgwyr i ddelio â materion fel gorbryder, iselder, a thrawma, sydd i gyd yn ffactorau cyffredin yn gysylltiedig â heriau ymddygiadol. Roedd yr enghreifftiau hyn o gydweithio nid yn unig yn helpu gwella ymgysylltu, ond hefyd yn sicrhau bod dysgwyr yn cael y cymorth roedd ei angen arnynt i lwyddo. Fodd bynnag, soniodd colegau am heriau o ran cael cyfle i fanteisio ar wasanaethau fel Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc (CAMHS), gan gyfeirio at giwiau enfawr (rhithwir?) ac amseroedd aros hir, a oedd felly'n cynyddu'r pwysau ar golegau a oedd yn ceisio llenwi'r bwlch.

Roedd enghreifftiau penodol o'r partneriaethau hyn ar waith yn cynnwys cysylltiadau â **gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid,** a oedd yn gweithio i fynd i'r afael â materion

ymddygiadol ar gyfer dysgwyr sydd mewn perygl o ymddygiad troseddol. Roedd y **Samariaid** yn cynnig cymorth emosiynol hanfodol, yn enwedig ar gyfer y rhai sy'n delio â heriau iechyd meddwl. Hefyd, roedd colegau'n partneru â sefydliadau fel **banciau bwyd** a **gwasanaethau lles** i helpu lleihau rhwystrau economaidd-gymdeithasol a allai gael effaith negyddol ar ymddygiad dysgwyr. Roedd **asiantaethau diogelu** yn chwarae rôl allweddol mewn rheoli achosion cymhleth, gan sicrhau yr aethpwyd i'r afael yn effeithiol â materion fel bwlio ac aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion. Roedd y partneriaethau hyn yn galluogi colegau i ddarparu cymorth targedig a chynhwysfawr, yn enwedig ar gyfer grwpiau nad oes cynrychiolaeth ddigonol ohonynt, y rhai sydd â heriau iechyd meddwl, a myfyrwyr o gefndiroedd difreintiedig, yr oedd pob un ohonynt yn cyfrannu at ddeilliannau ymddygiadol mwy cadarnhaol a chefnogol.

### Cymorth cydweithredol: Grymuso ymddygiad cadarnhaol gan ddysgwyr

Mae **Coleg Pen-y-bont** yn cynnal ffeiriau cymorth rheolaidd fel rhan o'i ymrwymiad i wella ymddygiad a lles dysgwyr, a lleihau rhwystrau rhag dysgu. Caiff y digwyddiadau hyn, a drefnir gan y tîm lles, eu cynnal deirgwaith y flwyddyn – ym mis Medi, mis Ionawr, a mis Ebrill. Cefnogir y ffeiriau gan ystod eang o asiantaethau lleol a chenedlaethol, gan gynnwys gwasanaethau'r GIG, awdurdodau lleol, a sefydliadau cymunedol arbenigol fel Lads and Dads (sy'n cefnogi myfyrwyr gwrywaidd), Barod (cymorth ag alcohol a chyffuriau), ARC (gwasanaethau iechyd meddwl), a Chlinigau Iechyd Rhywiol. Mae'r partneriaethau hyn yn sicrhau bod myfyrwyr yn cael cyfle i fanteisio ar adnoddau hanfodol, gan gynnwys cymorth iechyd meddwl, cyngor ar iechyd rhywiol, cymorth â chamddefnyddio sylweddau, a mwy. Trwy ddarparu'r gwasanaethau hyn mewn un gofod hygyrch, mae Coleg Pen-y-bont yn grymuso dysgwyr i ofyn am y cymorth sydd ei angen arnynt, gan wella ymgysylltu, cyfraddau cadw, ac ymddygiad yn gyffredinol.

## Cymorth ar gyfer staff

Roedd dysgu proffesiynol a hyfforddiant ar gael yn eang i staff i fynd i'r afael ag ymddygiad dysgwyr, ac amlygodd yr arolwg staff fod y dysgu proffesiynol sy'n canolbwyntio ar ymddygiad yn lled effeithiol neu'n effeithiol iawn, ym marn mwyafrif yr ymatebwyr. Fodd bynnag, roedd diffygion sylweddol yn amlwg mewn meysydd cymorth eraill, yn nodedig o ganlyniad i'r diffyg diogeledd tymor hir ar gyfer strwythurau atgyfeirio mewnol. Roedd y mater hwn yn deillio o natur y cyllid oedd wedi'i gyfyngu gan amser, a oedd yn atal y strwythurau hyn rhag cyrraedd cyflwr sefydledig. Ymhellach, roedd argaeledd anghyson mecanweithiau lles a chymorth emosiynol ar gyfer staff yn fwlch nodedig, hefyd.

### Beth sy'n gweithio'n dda

- **Hyfforddiant a datblygiad:** Roedd staff yn gwerthfawrogi argaeledd cyfleoedd hyfforddi, yn enwedig mewn arferion sy'n ystyriol o drawma, a oedd yn ymestyn eu gallu i reoli ymddygiadau heriol yn empathig. Roedd arsylwadau myfyriol a

sesiynau byr yn caniatáu ar gyfer datblygiad medrau targedig, a hyfforddiant yn ymestyn i staff nad ydynt yn addysgu i sicrhau dull cyson ar draws sefydliadau.

- **Strwythurau cefnogol:** Roedd sgyrsiau myfyriol a gwiriadau lles yn creu cyfleoedd i staff leisio pryderon a theimlo'u bod yn cael cefnogaeth. Roedd timau bugeiliol ac arbenigwyr rheoli ymddygiad dynodedig yn helpu lleddfu'r baich ar staff addysgu, gan ganiatáu ar gyfer ymyriadau a chymorth targedig trwy ganolbwyntio ar les, datblygiad personol ac ymddygiad dysgwyr, a chefnogi timau cyflwyno, yn y pen draw.
- **Adnoddau a systemau:** Roedd offer olrhain ymddygiad, fel dangosfyrddau a phyrth, yn darparu systemau hygyrch i staff i fonitro a mynd i'r afael ag ymddygiad dysgwyr, ochr yn ochr â phrosesau clir, oedd yn manylu ar ymagweddau strwythuredig at reoli heriau ymddygiadol. Yn ychwanegol, roedd pecynnau cymorth ac adnoddau tiwtorial yn cynorthwyo staff ag integreiddio ffocws ar ymddygiad yn y cwricwlwm.

### Meithrin cynwysoldeb: Pecyn cymorth cydweithredol ar gyfer ymddygiad cadarnhaol

Mae **Coleg Sir Gâr** wedi datblygu adnodd ymarferol, sef pecyn cymorth 'Creu Amgylchedd Cynhwysol', i ymestyn strategaethau addysgu a chefnogi ymddygiad dysgwyr. Mae'r canllaw cydweithredol hwn, sy'n cael ei ffurfio gan fewnbwn gan y Tîm Cymorth Dysgu, y Tîm Addysgu a Dysgu, staff, ac adborth dysgwyr, yn cynnig strategaethau ystafell ddosbarth, cynghorion, a thechnolegau i feithrin cynwysoldeb. Mae'n annog staff i ddeall anghenion dysgwyr yn well ac addasu'r ffordd y cyflwynir addysgu. Er mai megis dechrau y mae'r hyfforddiant, mae'r pecyn cymorth yn hyrwyddo dysgu ar y cyd ymhlith staff, gan ymestyn eu gallu i ddarparu addysg deilwredig a chynhwysol, a mynd i'r afael â heriau ymddygiadol mewn modd rhagweithiol a chefnogol.

### Beth sydd angen ei wella


- **Adborth a chyfathrebu:** Mae staff yn aml yn teimlo'u bod wedi'u datgysylltu o ddigwyddiadau ymddygiad y maent yn rhoi gwybod amdanynt, ac mae gweithgarwch dilynol neu eglurder cyfyngedig ar ddatrysiadau yn cael effaith negyddol ar eu ffydd yn eu proses rheoli ymddygiad.
- **Pwysau o ran adnoddau:** Nid yw galwadau cynyddol am anghenion dysgu ychwanegol a chymorth iechyd meddwl bob amser yn cael eu paru ag adnoddau digonol, gan greu pwysau sylweddol ar staff. Mae cyfyngiadau o ran amser hefyd yn cyfyngu ar gyfleoedd i staff gymryd rhan mewn hyfforddiant parhaus ac arferion myfyriol.
- **Eglurder mewn polisïau:** Mewn ychydig o achosion, nid yw polisïau rheoli ymddygiad, yn enwedig mentrau newyddach, yn cael eu deall yn dda gan staff, sy'n eu gadael yn ansicr am eu rolau a'u cyfrifoldebau. Mae angen cyfathrebu ac arweiniad cliriach i sicrhau gweithredu cyson.

- **Ffocws ar les staff:** Er bod mentrau lles yn cael eu gwerthfawrogi, mae rhai staff o'r farn eu bod yn annigonol i fynd i'r afael ag effaith emosiynol rheoli ymddygiadau heriol.

Teimlai mwyafrif yr ymatebwyr i'r arolwg staff fod polisïau ymddygiad eu colegau naill ai'n effeithiol iawn neu'n lled effeithiol, ac roedd y rhan fwyaf ohonynt yn treulio 20% neu lai o'u hwythnos waith yn mynd i'r afael â materion ymddygiadol. Pan roedd angen cymorth, roedd staff yn nodweddiadol yn gofyn am gymorth gan reolwyr llinell neu gydweithwyr, a dau o bob tri o ymatebwyr yn dweud eu bod yn teimlo'u bod yn cael cymorth. Fodd bynnag, datgelodd yr arolwg hefyd, lle nad aethpwyd i'r afael yn gyson ag ymddygiad gwael gan ddysgwyr, fod hyn yn cael effaith negyddol ar les staff.  Adleisiwyd llawer o'r sylwadau yn yr arolwg staff gan gynrychiolwyr undebau ac roeddent yn nodweddiadol yn cyfeirio at straen, rhwystredigaeth a gorbryder cynyddol, gan arwain at orweithio, absenoldebau, a morâl is. Roedd ymatebion yn cynnwys sylwadau am ymddygiad aflonyddgar yn cynyddu beichiau gwaith staff, a chymryd amser i ffwrdd o addysgu o ganlyniad i'r tasgau gweinyddol sy'n gysylltiedig â rheoli ymddygiad. Pan nad oedd ymddygiad amhriodol yn cael ei reoli'n gyson, dywedodd staff eu bod yn teimlo'n rhwystredig ac yn ddi-rym.

**Pa mor dda yw'r cymorth a gewch, yn eich barn chi, pan fyddwch yn wynebu heriau yn ymwneud â rheoli ymddygiad dysgwyr?**


Ymatebion i'r arolwg staff




*Canran ymateb yn seiliedig ar ymatebion gan 170 o staff*

**Yn eich profiad chi, sut caiff staff eu cynorthwyo wrth fynd i'r afael â materion ymddygiadol dysgwyr? Dewiswch bob un sy'n berthnasol**

Ymatebion i'r arolwg staff




*Canran ymateb yn seiliedig ar ymatebion gan 167 o staff*

## Cymorth gan Lywodraeth Cymru a Medr

Datgelodd canfyddiadau o'n hymweliadau fod ychydig o golegau wedi defnyddio canllawiau Llywodraeth Cymru i gefnogi eu gwaith ynghylch ymddygiad, er enghraifft y Strategaeth Atal Hunanladdiad a Hunan-niweidio. Fodd bynnag, nododd colegau fod bylchau mewn cymorth gan y llywodraeth hefyd, yn enwedig o ran materion sy'n dod i'r amlwg fel dysgwyr trawsryweddol / anneuaidd, aflonyddu rhywiol, cam-drin rhwng cyfoedion, a pherthnasoedd iach. Yn ychwanegol, nododd llawer o golegau nad yw canllawiau presennol Llywodraeth Cymru yn mynd i'r afael yn gynhwysfawr â bregusrwydd sy'n dod i'r amlwg, gan gynnwys y rhai sy'n deillio o ddeallusrwydd artiffisial (AI), cyfryngau cymdeithasol, a fepio, gan amlygu bylchau mewn cymorth ac arweiniad.

Mae colegau hefyd yn wynebu heriau sylweddol oherwydd natur dros dro cyllid penodol, yn enwedig ar gyfer rolau allweddol fel swyddogion presenoldeb a bugeiliol. Mae'r ffrwd gyllid ar gyfer cyllid iechyd meddwl a lles, yn gweithredu ar sail dyraniad blynyddol sydd ynghlwm wrth brosesau gosod cyllideb. Mae'r cyllid hwn, sydd bellach yn cael ei weinyddu gan Medr, yn destun cadarnhad blynyddol, sy'n effeithio ar barhad y gwasanaethau hanfodol hyn ac yn tanseilio'r gallu i sefydlu systemau cymorth tymor hir, cynaliadwy, yn enwedig wrth i wasanaethau cymorth allanol barhau i fod o dan bwysau cynyddol o ganlyniad i raddfa'r galw. Mynegodd arweinwyr a staff colegau bryder y gallai hyn arwain at golli arbenigedd staff mewn meysydd allweddol fel arferion sy'n ystyriol o drawma a rheoli ymddygiad, gan wanhau isadeileddau cymorth y colegau ymhellach.

# Dulliau a sail y dystiolaeth

I lywio'r adroddiad hwn, buom yn casglu tystiolaeth trwy amrywiaeth o weithgareddau, gan gynnwys dau arolwg cenedlaethol. Roedd un arolwg yn targedu staff colegau, a chafwyd 172 o ymatebion, tra roedd y llall yn canolbwyntio ar ddysgwyr, gyda 295 o ymatebion. Yn nhymor yr hydref 2024, ymwelom â saith coleg ledled Cymru, sy'n cynrychioli cyfuniad o leoliadau, gan gynnwys y gogledd, y gorllewin, y de, ardaloedd gwledig, a champysau yng nghanol dinasoedd. Yn ystod yr ymweliadau hyn, buom yn ymgysylltu â staff cwricwlwm a staff cymorth busnes allweddol ar lefelau strategol a gweithredol, fel ei gilydd. Buom yn cyfweld â dysgwyr o wahanol grwpiau oedran a lefelau rhaglen, gan gynnwys cynrychiolwyr o grwpiau amrywiol fel LHDTC+. Yn ychwanegol, buom yn cynnal teithiau dysgu ac yn adolygu adnoddau a dogfennau i gael dealltwriaeth gynhwysfawr o ymddygiadau dysgwyr yn lleoliad y coleg.

Cynhaliom gyfarfodydd â chynrychiolwyr undebau colegau hefyd i drafod sut mae ymddygiad dysgwyr yn effeithio ar les a beichiau gwaith staff. Ymhellach, buom yn ymgynghori â Colegau Cymru i archwilio pryderon a mewnwelediadau ynghylch capasiti staff a phwysau baich gwaith o ganlyniad i'r gwaith y maent yn ei arwain mewn cysylltiad â baich gwaith staff mewn lleoliadau addysg bellach.

Yn ychwanegol, cynhaliom adolygiad wrth y ddesg i gasglu dogfennau perthnasol yn gysylltiedig â ffocws yr astudiaeth. Roedd yr adolygiad hwn yn cynnwys dadansoddiad o gyhoeddiadau ac adnoddau diweddar, gan gynnwys adroddiadau thematig Estyn a gyhoeddwyd yn y gorffennol. Darparodd y dull hwn sail dystiolaeth gadarn, gan ein galluogi i ddeall y materion pennaf a'r arferion effeithiol yn y maes, sy'n sail i'n canfyddiadau a'n hargymhellion.

Hoffai Estyn ddiolch i'r sefydliadau canlynol am gymryd rhan yn yr adolygiad thematig hwn:

| Sefydliad | Sector |
|---|---|
| Coleg Pen-y-bont | Addysg bellach |
| Coleg Caerdydd a'r Fro | Addysg bellach |
| Coleg Cambria | Addysg bellach |
| Coleg Gwent | Addysg bellach |
| Coleg Sir Gâr | Addysg bellach |
| Colegau Cymru | Elusen addysg |
| Coleg Sir Benfro | Addysg bellach |
| Coleg Chweched Dosbarth Catholig Dewi Sant | Addysg bellach |
| Yr Undeb Addysg Cenedlaethol (NEU) | Undeb |
| Undeb Prifysgolion a Cholegau (UCU) | Undeb |


Mae copïau o'r holiaduron a ddefnyddiom ar gyfer yr adolygiad thematig hwn i'w gweld ar dudalen y cyhoeddiad.

# Geirfa

| | |
|---|---|
| **AB** | Addysg Bellach |
| **ACE** | Profiad Niweidiol yn ystod Plentyndod |
| **ADY** | Anghenion Dysgu Ychwanegol |
| **ARC** | Cynorthwyo Adferiad yn y Gymuned |
| **Dull adferol** | Dull adferol yn canolbwyntio ar gywiro niwed ac ail-feithrin perthnasoedd trwy ddeialog, atebolrwydd, a pharch ar y ddwy ochr, yn hytrach na chosbi. Mae'n annog dealltwriaeth o effaith drygioni a chydweithio i ddod o hyd i atebion. |
| **Dull sy'n ystyriol o drawma** | Dull sy'n ystyriol o drawma sy'n cynnwys deall ac ymateb i effaith trawma ar unigolion. Mae'n canolbwyntio ar greu amgylchedd diogel a chefnogol lle caiff anghenion emosiynol a seicolegol pobl eu parchu, gan eu helpu i wella a ffynnu. |
| **GIG** | Gwasanaeth Iechyd Gwladol |
| **LHDTC+** | Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol, Trawsryweddol, Cwiar, a sawl enghraifft arall o gyfeiriadedd rhywiol a hunaniaeth rhywedd |
| **Medr** | Mae Medr yn gyfrifol am ariannu a rheoleiddio'r sector addysg drydyddol ac ymchwil yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys addysg bellach. |

## Niferoedd – symiau a chyfrannau

| | |
|---|---|
| bron pob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | islaw 40% |
| ychydig = | islaw 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

# Cyfeiriadau


Aloe, A.M., Shisler, S.M., Norris, B.D., Nickerson, A.B. a Rinker, T.W. (2014) 'A multivariate meta-analysis of student misbehavior and teacher burnout', *Educational Research Review*, 12, tt. 30–44.

Education and Training Foundation (2022) *Safeguarding Survey Report*. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.et-foundation.co.uk/wp-content/uploads/2022/02/Safeguarding-Survey-Report.pdf [Darllenwyd 10 Hydref 2024].

Education and Training Foundation (2020) *Understanding and promoting positive behaviour in the FE sector*. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.et-foundation.co.uk/wp-content/uploads/2022/12/Understanding_Promoting_positive_behaviour_-_Sep_2020.pdf [Darllenwyd 10 Hydref 2024].

Estyn (2021) *Cymorth ar gyfer iechyd meddwl a lles emosiynol dysgwyr*. Caerdydd: Estyn [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.estyn.llyw.cymru/system/files/2021-08/Learner%20Mental%20Health%20and%20Emotional%20Wellbeing%20in%20the%20Post-16%20sectors%20cy.pdf [Darllenwyd 10 Hydref 2024].

Estyn (2022) *'Dydyn ni ddim yn dweud wrth ein hathrawon' – profiadau o aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion ymhlith disgyblion ysgolion uwchradd yng Nghymru*. Caerdydd: Estyn [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.estyn.llyw.cymru/system/files/book_pdf/cy/21018-dydyn-ni-ddim-yn-dweud-wrth-ein-hathrawon-profiadau-o-aflonyddu-rhywiol-rhwng-cyfoedion-ymhlith.pdf [Darllenwyd 6 Mawrth 2025]

Estyn (2023) *Aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion ymhlith dysgwyr 16-18 oed mewn colegau addysg bellach ledled Cymru*. Caerdydd: Estyn [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.estyn.llyw.cymru/system/files/2023-06/Aflonyddu%20rhywiol%20rhwng%20cyfoedion%20ymhlith%20dysgwyr%2016-18%20oed%20mewn%20colegau%20addysg%20bellach%20ledled%20Cymru.pdf [Darllenwyd 10 Hydref 2024].

Harmsen, R., Helms-Lorenz, M., Maulana, R. a van Veen, K. (2018) 'The relationship between beginning teachers' stress causes, stress responses, teaching behaviour and attrition', *Teachers and Teaching*, 24(6), tt. 626–643.

Hill, J. (2024) *What's behind the rise in bad student behaviour in colleges?* [Ar-lein]. Ar gael o: https://feweek.co.uk/whats-behind-the-rise-in-bad-student-behaviour-in-colleges/ [Darllenwyd 10 Hydref 2024].

Ince, E. (2021) *Behaviour management requires a united staff front.* [Ar-lein]. Ar gael o: https://feweek.co.uk/behaviour-management-requires-a-united-staff-front/ [Darllenwyd 10 Hydref 2024].

Ingersoll, R. (2003) *Is there really a teacher shortage? A research report* (Report No. R-03-4). Seattle: Center for the Study of Teaching and Policy, University of Washington.

Janes, G., Nutt, D. a Taylor, P. (eds.) (2015) *Student behaviour in higher education: co-creation of positive learning cultures through partnership and engagement.* SEDA Special. London: SEDA.

McCormick, J. a Barnett, K. (2011) ‘Teachers' attributions for stress and their relationships with burnout’, *International Journal of Educational Management*, 25(3), tt. 278–293.

New South Wales Department of Education. (n.d) *Factors that influence student behaviour.* [Ar-lein]. Ar gael o: https://education.nsw.gov.au/schooling/school-community/attendance-behaviour-and-engagement/behaviour-support-toolkit/support-for-teachers/understanding-behaviour/factors-that-influence-student-behaviour [Darllenwyd 10 Hydref 2024].

Ofsted (2019) *Teacher well-being at work in schools and further education providers.* [Ar-lein]. Ar gael o: https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/936253/Teacher_well-being_report_110719F.pdf [Darllenwyd 16 Hydref 2024].

Oxley, L., Asbury, K. a Kim, L.E. (2023) 'The impact of student conduct problems on teacher well-being following the onset of the Covid-19 pandemic: An Interpretative Phenomenological Analysis', *British Educational Research Journal*. [Ar-lein]. Ar gael o: https://doi.org/10.1002/berj.3923 [Darllenwyd 16 Hydref 2024].

UNISON. (n.d.) *Managing difficult behaviour: A guide for staff in colleges*. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.unison.org.uk/content/uploads/2018/04/24890.pdf [Darllenwyd 10 Hydref 2024].